| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Cabinet |
| **Dyddiad:** | 18 Chwefror 2020 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid |
| **Pwnc:** | Cyllideb 2020/21 |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid |

---

## CYLLIDEB 2020/21

### Y Penderfyniad a geisir

**(a)** Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2020) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £261,837,750 ar gyfer 2020/21 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £187,579,040 a £74,258,710 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.9%.

2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £44,247,260 yn 2020/21 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

**(b)** Cymeradwyo symud ymlaen i weithredu'r rhestr cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 3, er mwyn sefydlu'r gyllideb argymhellir i'r Cyngor llawn.

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/21.

1.2 Eleni, mae'r Cyngor wedi derbyn setliad grant mwy teg na fu mewn blynyddoedd blaenorol. Er hynny, rhaid cymryd rhai penderfyniadau ar gyfuniad o gyflawni arbedion ychwanegol a chodi'r Dreth 3.9%.

1.3 Argymhellir codi'r Dreth 3.9% yn 2020/21 er mwyn amddiffyn gwasanaethau i bobl Gwynedd, gan fyddai gweithredu'r cynlluniau arbedion eraill a ystyriwyd wedi bod yn annerbyniol oherwydd yr effaith ar bobl Gwynedd.

1.4 Wedi ymgynghori gydag aelodau mewn cyfres o weithdai yn Ionawr, a gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (13 Chwefror), mater i'r Cabinet yw argymell cyllideb briodol i'r Cyngor ar gyfer 2020/21.

1.5 Erbyn 2020/21, byddai angen cynyddu ein gwariant o £15.8m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod), gan gynnwys £4.3m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).

1.6 Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol, bydd raid priodoli £1.9m o arbedion (mae manylion yn rhan 4 isod a'r cynlluniau unigol wedi'u rhestru yn Atodiad 3) ac wedyn rhaid cynyddu'r Dreth Cyngor 3.9% (mae manylion yn rhan 5 isod, ac yn Atodiad 6).

1.7 Bu adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau llynedd, ac eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £44,247,260 yn 2020/21, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.

1.8 Bwriedir modelu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (am 2020/21 – 2022/23) yn ystod haf 2020, ar ôl Cyllideb Canghellor y DU, ayb, rhag ofn y bydd rhywbeth sylfaenol yn newid yng ngweithrediadau'r Llywodraeth. Mae'n bosib bydd angen trefniadau hyblyg er mwyn gallu gwireddu mwy o arbedion mewn blynyddoedd dilynol, ond bwriedir ystyried hynny ar ôl derbyn mwy o wybodaeth.

1.9 Mae cyllideb 2020/21 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymell cynnydd 3.9% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Wrth ddethol arbedion, rydym am eu cyflawni yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl, ond gwelir y bydd hynny yn fwy heriol erbyn 2021/22 a tu hwnt, pe bai setliadau grant anffafriol, fel a fu mewn blynyddoedd blaenorol.

1.10 Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2020/21 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2020/21, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2019/20.

## 2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad dangosol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2020/21. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol 'debyg-wrth-debyg' gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod, ynghyd â'r gwir ffigyrau "cash":

| **Grant Cynnal Refeniw 2019/20 – 2020/21** | | **Cyfanswm Awdurdodau Cymru £** | **Cyngor Gwynedd swyddogol £** | **Cyngor Gwynedd "cash" £** |
|---|---|---|---|---|
| Grant y Llywodraeth 2019/20 | | 4,290,612,000 | 179,374,740 | 176,551,790 |
| Grant y Llywodraeth 2020/21 | | 4,474,443,600 | 187,579,040 | 187,579,040 |
| | Cynnydd £ | 183,831,600 | 8,204,300 | 11,027,250 |
| | Cynnydd % | +4.3% | +4.6% | - |

Mae manylion pellach ar gael yma –

https://llyw.cymru/setliad-refeniw-chyfalaf-llywodraeth-leol-dros-dro-2020-i-2021?_ga=2.186323562.297550458.1580053366-1435204194.1547569279

2.2 Fe welir o ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru sy'n y tabl uchod yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £8.2m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr 2019/20 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n 4.6%, gyda chyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru yn 4.3%.

2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis y nifer disgyblion, nifer hawlwyr cymorth incwm, ayb, ac mae ffactor casglu gwastraff wedi mynd o'n plaid ni eleni (yn adlewyrchu cost uwch casglu mewn ardal wledig).

2.4 Hefyd, yn ogystal â ffigyrau swyddogol "tebyg wrth debyg" Llywodraeth Cymru (uchod), derbyniwyd cynnydd go sylweddol oherwydd addasiad sylfaen trethiannol sy'n ail-ddosbarthu grant rhwng awdurdodau lleol Cymru. Roedd hyn oherwydd lleihad mewn eiddo treth cyngor yng Ngwynedd (gwneud i fyny am effaith mudo 'tai gwyliau' i'r rhestr treth busnes), o'i gymharu â chynnydd cyffredinol arferol mewn eiddo treth cyngor ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru.

2.5 Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar 25 Chwefror, ynghyd â chyllideb terfynol Llywodraeth Cymru eu hunain, ond ni ddisgwylir newid arwyddocaol i'r ffigyrau grant 'dangosol'.

## 3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2020/21

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd yn y gwariant fydd ei angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2020/21.

**Gofynion Gwario Ychwanegol**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol | | 248,013,890 |
| Chwyddiant Cyflogau Staff | 4,535,220 | |
| Pensiynau Athrawon | 1,193,180 | |
| Pensiynau Arall | -1,684,170 | |
| Chwyddiant Arall (cyflenwyr) | 2,865,940 | |
| Ardollau (Tân a CNC) | 148,310 | |
| Demograffi | 821,440 | |
| Trosglwyddiadau i'r Setliad | 2,062,350 | |
| Terfynu Grant Penodol | 500,000 | |
| Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau | 4,336,690 | |
| Bidiau Cyfalaf | 1,004,000 | |
| Addasiad Cytundeb Torfol | 380,000 | |
| Addasiadau Cyllideb Amrywiol | -48,850 | |
| Cost Benthyca / Llog ar Falansau | -304,850 | |
| Cyfanswm net yr ychwanegiadau | | 15,809,260 |
| Cyfanswm gofynion gwario 2020/21 cyn arbedion | | 263,823,150 |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2019/20**
Er mai £248m yw gwariant net 2019/20, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £418m oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £110m ac yn codi bron i £60m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £4.5m**
Darperir ar gyfer cynnydd tâl dros 2% i staff y Cyngor, yn unol â'n rhagamcan o gytundeb cenedlaethol, fydd yn weithredol o Ebrill 2020. Hefyd, darperir ar gyfer cynnydd tâl 2.75% i athrawon ysgolion Gwynedd am y cyfnod Ebrill – Awst 2020, a 2% o Fedi 2020 – Mawrth 2021.

3.4 **Pensiynau Athrawon £1.2m**
Mae Llywodraeth San Steffan wedi codi cyfradd cyfraniad pensiwn cyflogwyr i'r Cynllun Pensiwn Athrawon o 16.5% i 23.6% o Fedi 2019, ac mae gwerth 7% o gost cyflogau athrawon ysgolion Gwynedd am 5 mis yn £1.2m (gyda £1.7m yn 2019/20, mae cost hyn am flwyddyn llawn bron yn £3m).

3.5 **Pensiynau Arall -£1.68m**

Roedd canlyniad prisiad actiwaraidd teirblynyddol o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn dod i gasgliad fod y gronfa gyfan wedi'i ariannu 108% ar 31/03/19 ac elfen Cyngor Gwynedd fel cyflogwr wedi'i ariannu 109%. Roedd hyn yn bennaf oherwydd dychweliadau gwell na'r disgwyl wrth fuddsoddi ar y farchnad stoc ers 2016.

O ganlyniad, mae actiwari'r Gronfa wedi caniatáu i ni gwtogi cyfraniadau pensiwn Cyngor Gwynedd fel cyflogwr o 21.9% i 20.4%, fydd yn arbed £1,833,170 y flwyddyn mewn argostau cyflogi. Yn ganol yr holl bwysau i wario mwy sy'n y rhestr uchod, mae'r arbediad £1.8m yma'n gymorth sylweddol i sefyllfa'r Cyngor, ac mae cyflogwyr eraill yng Nghronfa Gwynedd wedi elwa yn yr un modd.

Yn groes i'r arbediad £1.8m uchod, rydym yn darparu £149k ychwanegol ar gyfer mwy o staff y Cyngor yn ymuno gyda'r cynllun pensiwn, drwy 'auto-enrolment'.

3.6 **Chwyddiant Arall £2.9m**

Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd ein cyflenwyr preifat (yn cynnwys £643k ar gyfer cartrefi gofal preswyl annibynnol), ynghyd â chynnydd chwyddiant sylweddol ar gyllidebau tanwydd ac ynni (£472k).

3.7 **Ardollau £148k**

Yn Rhagfyr 2019, penderfynodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru godi'r ardoll 2% ar yr awdurdodau cyfansoddol, sy'n cynyddu'r gofyn ar Cyngor Gwynedd o £137k, tra bu cynnydd £11k mewn ardoll draenio arbennig i 'Cyfoeth Naturiol Cymru', ond dim cynnydd yn ardoll Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

3.8 **Demograffi £821k**

Cyfanswm sy'n adlewyrchu +£300k oherwydd cynnydd net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion, +£510k i'r Adran Gofal Oedolion i gyfarch y nifer cynyddol o bobl fydd angen gofal mewn poblogaeth sy'n heneiddio, a +£11k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Theuluoedd.
Mae'r ffigwr net o +£300k i ysgolion yn cuddio sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£452k a cynradd -£152k.

3.9 **Trosglwyddiadau i'r setliad £2.06m**

Mae cyfrifoldeb ac adnoddau ar gyfer pensiynau (£1.5m) a tâl (£470k) athrawon (elfen $^{7}/_{12}$ Medi 2019 – Mawrth 2020) yn trosglwyddo i mewn i setliad grant Llywodraeth Cymru i'r Cyngor erbyn 2020/21, ynghyd â swm llai (£87k) ar gyfer Gofal Nyrsio. Bydd y cyllidebau sy'n trosglwyddo i gyllideb y Cyngor, ynghyd â'r cyfrifoldebau perthnasol, yn cael eu dyrannu i'r adrannau perthnasol.

Felly, bydd cynnydd tua £2m yng nghyllideb yr Adran Addysg a chynnydd £87k yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i adlewyrchu'r gofynion gwario perthnasol.

3.10 **Terfynu Grant Penodol £500k**

Derbynnir nifer sylweddol o grantiau penodol lle disgwylir yn aml i'r Cyngor ymrwymo i wariant ychwanegol. Mewn rhai achosion, gellid defnyddio grantiau penodol i ariannu pwysau ar wariant anorfod.

Yng nghyllideb 2019/20, defnyddiwyd grantiau penodol ar gyfer ariannu'r gost ychwanegol pensiynau athrawon a chwyddiant tâl athrawon, ac mae rheiny yn trosglwyddo i'r setliad grant cyffredinol erbyn 2020/21 (gweler isod).

Hefyd, defnyddiwyd grant penodol £0.5m llynedd er mwyn ariannu rhai bidiau am wasanaethau ataliol yn yr Adran Gofal Plant. Yn anffodus, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bydd y grant penodol i 'atal plant rhag cael eu derbyn i ofal' ddim yn parhau erbyn 2020/21, a ddim yn trosglwyddo i'r setliad chwaith.

Felly, rhaid i'r Cyngor ddarparu £500k rŵan er mwyn ariannu bidiau ataliol 2019/20 yr Adran Plant, sydd bellach yn ariannu swyddi a gwasanaethau hanfodol.

3.11 **Pwysau ar Wasanaethau £5.34m**

'Bidiau' anorfod – gweler Atodiad 2 am fanylion pob 'bid' unigol, yn cynnwys £4.34m refeniw a £1m cyfalaf. Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £5.34m gan adrannau'r Cyngor am adnoddau parhaol ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Hefyd, argymhellir cymeradwyo bidiau un-tro gwerth £311,500 ar ôl neilltuo arian i'r perwyl hyn yn yr adolygiad Tachwedd o gyllideb 2019/20, cymeradwywyd gan y Cabinet ar 21 Ionawr 2020.

Cofier fod nifer o brif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn (fesul un drwy benderfyniadau'r Cabinet), drwy Gynllun y Cyngor. Beth gyflwynir yn y "bidiau" yn Atodiad 2 yw ymrwymiadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

Mae pob Adran yn cael yr hawl i nodi os oes yna unrhyw wariant y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni os yw am sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r pennawd yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hunain wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, wedyn ninnau'n gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau cyflwynir yma yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Gyllid cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, trafodwyd yr holl 'bidiau' yma pryd y'i cyflwynwyd ar 'sleids' i'r gyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 20-27 Ionawr 2020, lle roedd aelodau'r Cyngor yn cydsynio fod y gwariant yn anorfod.

3.12 **Addasiad Cytundeb Torfol £380k**

Yn ystod 2012, roedd gan y Cyngor fwlch ariannol o £32m yn ei gynllun ariannol tymor-canol, a gofynnwyd i'r gweithwyr dderbyn pecyn oedd yn gyfystyr â rhoi diwrnod a hanner yn ddi-dâl i'r awdurdod mewn blwyddyn.

Mewn cyfnod ariannol anodd, cytunodd y gweithwyr fod angen iddynt aberthu diwrnod a hanner o gyflog, er mwyn amddiffyn gwasanaethau ac isafu'r nifer o ddiswyddiadau.

Cafodd y didyniad tâl ei leihau o un a hanner diwrnod i un diwrnod yn 2018. Adeg hynny, ddaru'r Cyngor ymrwymo i gael gwared â'r un diwrnod sy'n weddill cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Yng nghyd-destun setliad grant y Cyngor am 2020/21 sy'n well na'r disgwyl, credwn fod cyfle eleni i ddileu'r un diwrnod sy'n weddill.

Er fod y setliad grant wedi'i wrthbwyso gan gostau ychwanegol, mae'r sefyllfa yn fwy ffafriol nac unrhyw flwyddyn ers 2008.

Bydd darpariaeth cyllideb o £380k yn ein galluogi i roi'r tâl am ddiwrnod yn ôl i staff y Cyngor, hynny yw, dileu'r didyniad tâl presennol o Ebrill 2020 ymlaen.

3.13 **Addasiadau Cyllideb Amrywiol -£49k**
Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor, ond yn bennaf dychwelyd 'bidiau' ni ddefnyddiwyd.

3.14 **Costau Benthyca a Llog ar Falansau -£305k**
Rhagamcan o ostyngiad (£85k) mewn llog taladwy ar fenthyciadau yn 2020/21, wrth i hen fenthyciadau hir-dymor ddirwyn i ben, ynghyd â chynnydd (£220k) mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor.

## 4. ARBEDION

4.1 Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23 Gorffennaf 2019 yn darogan bwlch ariannu rhwng £1.7m a £7.3m yn 2020/21 (gyda cynnydd treth 3.5%).

4.2 Felly, penderfynwyd gofyn i adrannau ddarganfod eu siâr nhw o £2m i adnabod arbedion ar gyfer 2020/21, gan ofyn i'r Pwyllgorau Craffu ystyried holl gynlluniau 'posib' a gyflwynwyd gan yr adrannau (ac ysgolion). Cyflawnodd aelodau'r Cabinet (yng nghyfarfod 17 Rhagfyr 2019) y dasg o ddethol y cynlluniau cyflwynir yma'n Atodiad 3 (gwerth £1m), a diystyrru opsiynau lle fyddai'r effaith ar wasanaethau i bobl Gwynedd yn annerbyniol.

4.3 Wedi adnabod bwlch ariannu tebygol 2020/21 yn sgîl 'setliad' dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol, eglurwyd sefyllfa'r gyllideb i aelodau'r Cyngor mewn cyfres o 'Weithdai Cyllideb' ar 20-27 Ionawr 2020.

4.4 Wedi gwrando ar adborth cefnogol aelodau yn y 'Gweithdai Cyllideb', mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid yn cyflwyno'r detholiad gwerth £1,062,320 o arbedion ar gyfer cyfarch y bwlch yn rhannol, ynghyd â £923,080 o gynlluniau arbedion cymeradwy o flynyddoedd blaenorol, gyda'r cynnydd mewn Treth Cyngor yn gorfod cyfarch y bwlch gweddilliol.

4.5 Felly, pe bai'r Cyngor yn cymeradwyo gweithredu'r cynlluniau arfaethedig cyflwynir yn Atodiad 3, byddwn yn cynhaeafu gwerth £1m o arbedion pellach yn 2020/21.

4.6 Hefyd, er mwyn dygymod gyda'r bwlch ariannu, gellid cynhaeafu £0.9m o arbedion sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer 2020/21.

**Arbedion i ddygymod gyda Bwlch Ariannu 2020/21**

| | £ |
|---|---|
| Arbedion Blaenorol Cymeradwy | 923,080 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Pellach | 1,062,320 |
| Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch | 1,985,400 |

4.7 O ganlyniad, bydd cyfanswm o £1.9m o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

4.8 Mae'r holl gynlluniau arbedion arfaethedig sydd angen eu cymeradwyo wedi'u cyflwyno yma'n Atodiad 3 fel y'i cyflwynwyd i'r pwyllgorau craffu perthnasol yn Nhachwedd ac wedyn i'r Cabinet ar 17 Rhagfyr 2019.

## 5. BWLCH ARIANNU 2020/21, A'R DRETH CYNGOR

5.1 Fe welir o ran 2 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2020/21 yn £263.8m. Nodwyd yn rhan 2 uchod fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £187.6m.

5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £1.9m o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

**Sefydlu Cyllideb 2020/21**

| | £ |
|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol 2019/20 | 248,013,890 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 15,809,260 |
| Gofynion Gwario 2020/21 cyn Arbedion | 263,823,150 |
| llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru | -187,579,040 |
| llai Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch | -1,985,400 |
| Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor | 74,258,710 |

5.3 Golygai hynny fod bwlch gweddilliol o £74.3m, ac argymhellir cyfarch y bwlch hwnnw drwy'r Dreth Cyngor. Bydd angen codi'r Dreth 3.9% er mwyn cynhyrchu incwm digonol.

5.4 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth (ynghyd â manylion y Premiwm ar ail gartrefi a tai gwag) wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

## 6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2020/21

6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2020/21 ac er gwaethaf setliad grant mwy teg eleni, yn cadarnhau rhaid parhau i gynhaeafu arbedion ar gyfer dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £261.8m, wedi ychwanegu £15.8m, sy'n cynnwys darparu £5.3m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.

6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £187.6m a dibynnu ar £1.9m o arbedion, bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 3.9% i gynhyrchu £74.3m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2020/21.

| **Cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/21** | £ |
|---|---|
| Gofynion Gwario 2020/21 cyn Arbedion | 263,823,150 |
| Cyfanswm Arbedion 2020/21 | -1,985,400 |
| Cyllideb 2020/21 | 261,837,750 |
| | |
| **I'w ariannu drwy -** | |
| Incwm Grant | 187,579,040 |
| Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 3.9%) | 74,258,710 |
| Cyllideb 2020/21 | 261,837,750 |

6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £261,837,750. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

## 7. CYFALAF

7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau 2019/20 – 2028/29 gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019 a'r Cabinet ar 2 Ebrill 2019, ac rydym yn ychwanegu ato erbyn 2020/21. Mae manylion yn Atodiad 4.

7.2 Argymhellir ychwanegu £1m o refeniw at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2020/21, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan am 2020/21 gwerth £44,247,260 i'w ariannu o'r ffynonellau wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.

## 8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

8.1 Fel arfer, cynhwysir Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyda'r adroddiad cyllideb. Eleni, mae mwy o ansicrwydd am y dyfodol cyn cyllideb Canghellor Llywodraeth San Steffan ar 11 Mawrth 2020.

8.2 Rhaid i awdurdodau lleol Cymreig ddarogan polisi/bwriad Llywodraeth Cymru yn ogystal. Fel dywedai Julie James AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol, mewn llythyr i Arweinyddion awdurdodau lleol gogledd Cymru ar 30 Ionawr:

> *"Uchelgais Llywodraeth Cymru yw darparu cymaint o sicrwydd cynnar â phosibl i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid o ran cynlluniau gwario a setliadau aml-flwyddyn, fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn â rhagdybiaethau cynllunio realistig a synhwyrol. Ynghyd â'r sefyllfa barhaus ynghylch Brexit, mae'r diffyg eglurder mewn perthynas â rhagolygon cyllidol y DU yn creu her na welwyd ei thebyg o'r blaen i ni wrth ddatblygu ein cynlluniau gwariant ar gyfer y dyfodol. Yn y cyfnod ansicr hwn ..."*
>
> *"... rydym yn cydnabod ac yn cydymdeimlo â'r galwadau gan ein partneriaid yn y sector cyhoeddus am gyllidebu dros gyfnod hwy er mwyn cefnogi blaengynllunio ariannol. Bydd Cyllideb nesaf y DU ar 11 Mawrth yn dod â rhywfaint o eglurder i gyllid Llywodraeth Cymru yn y tymor byr, a bydd angen ystyried unrhyw ariannu yn y dyfodol yng nghyd-destun Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y DU yn ddiweddarach eleni. "*

8.3 Nid yw'n eglur eto pryd cawn arwydd o ganlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr.

8.4 Felly, byddaf yn cyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i gyfarfod dilynol o'r Cabinet er mwyn ystyried strategaeth arbedion i'r dyfodol yn ystod tymor yr haf.

## 9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

9.1 Ystyrir fod y lefel gyfredol o falansau cyffredinol, sef £7.5m, yn briodol ac nid yw'r gyllideb yma'n argymell defnydd o'r balansau rydym am gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir wybodaeth manwl am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.

9.2 Mae Atodiad 5 yn egluro sefyllfa teg 'bargen' cyllideb ysgolion Gwynedd yn fanwl.

9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, ac yn arbennig ynglŷn â chynlluniau arbedion, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. O ganlyniad, mae asesiad safonol wedi ei baratoi ar gyfer y cynlluniau arbedion. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, ac hefyd yn cynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb.

9.4 Mae'r Cyngor yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.

9.5 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn fater lleol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Swyddog Monitro:**
Er mai mater i'r Cyngor Llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y gyllideb mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir iddo ynglŷn â'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido, yna y Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2020/21 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| 1 | Cyllidebau Arfaethedig |
| | |
| 2 | Crynodeb Bidiau |
| 2a | Bidiau Refeniw Parhaol |
| 2b | Bidiau Refeniw Un-tro |
| 2c | Bidiau Cyfalaf |
| | |
| 3 | Arbedion |
| 3a | Rhestr Arbedion |
| | |
| 4 | Cyfalaf |
| | |
| 5 | Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2020/21 |
| | |
| 6 | Treth Cyngor |
| | |
| 7 | Balansau |
| | |
| 8 | Asesiad Effaith Cydraddoldeb |
| | |
| 9 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| | |
| 10 | Cadernid yr Amcangyfrifon |